**CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 20**

## Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
## Legislation, Justice and Constitution Committee


**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565


Teuluoedd yn Gyntaf mewn Addysg Cymru

7 Mawrth 2023

Annwyl Syr/Madam,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Chwefror 2023; cafodd ei nodi gennym yn ein cyfarfod ar 27 Chwefror 2023.

Gwnaethoch ofyn a fyddai'r materion sy'n cael eu codi yn eich llythyr yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog y Senedd, gallwn drafod unrhyw is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath sy'n ymwneud ag addysg gartref.

Byddwn yn ystyried ac yn cyflwyno adroddiad ar offerynnau statudol (megis rheoliadau) yn unol â'r sail a nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3.

Yn ogystal, gallwn hefyd ystyried a chyflwyno adroddiad ar faterion penodol eraill o dan Reol Sefydlog 21.7.

Bydd ein dull gweithredu a'n gwaith craffu felly'n cael eu harwain gan ofynion y Rheolau Sefydlog hyn. Dylwn ychwanegu mai pwrpas ein gwaith craffu a'r adroddiadau a gynhyrchir gennym yw darparu gwybodaeth i gynorthwyo Aelodau i benderfynu a ddylid cefnogi gwneud is-ddeddfwriaeth ai peidio yn unol â'r weithdrefn berthnasol (fel y'i nodir yn y Ddeddf alluogi). Mae gwybodaeth am y gwahanol fathau o weithdrefnau ar gael ar ein tudalennau gwe ar is-ddeddfwriaeth.

Mae eich llythyr hefyd yn cyfeirio at ganllawiau statudol ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref. Gallwn ystyried a chyflwyno adroddiad ar ganllawiau o’r fath os ydynt yn dod o fewn cwmpas ein cylch gwaith o dan y Rheolau Sefydlog a nodir uchod.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Jane Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd